GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

15 Hydref 2010

Adolygiad o Haematoleg Glinigol

Daeth nifer dda o staff i gyfarfod rhannu gwybodaeth yn Llanelwy ar 14 Hydref 2010 i drafod yr adolygiad arfaethedig o wasanaethau Haematoleg Glinigol ar draws Gogledd Cymru. Haematoleg Glinigol yw'r enw ar y driniaeth a roddir i gleifion ag anhwylderau ar y gwaed. Roedd y grŵp yn cynnwys staff meddygol, nyrsys a staff labordai o bob rhan o Ogledd Cymru, a hefyd roedd cynrychiolydd cleifion yn bresennol. Pwrpas y cyfarfod oedd egluro'r broses adolygu, adnabod y prif randdeiliaid y bydd angen eu cynnwys yn y broses a chytuno pa gwestiwn yn union y bydd yr adolygiad yn ei ateb.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd llawer o drafodaeth a chytunodd pawb oedd yn bresennol bod angen newid i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth modern wedi'i gynllunio i roi gwasanaethau haematoleg glinigol diogel ac effeithiol i gleifion Gogledd Cymru.

Dynodwyd amrywiaeth eang o randdeiliaid a gwahoddir y rhain i anfon cynrychiolwyr i ddigwyddiadau'r rhanddeiliaid a gynhelir fel rhan o'r broses adolygu.

O ran y cwestiwn, cytunodd y grŵp y byddai angen i'r adolygiad ateb y cwestiwn:

'Beth ydy'r dull gorau posib o ddarparu Gwasanaethau Haematoleg Glinigol i bobl Gogledd Cymru o fewn yr adnoddau sydd ar gael?'

Bydd y broses adolygu yn dechrau ym mis Tachwedd a bydd yn cymryd tua phedwar mis i'w gwblhau. Disgwylir y bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng ngwanwyn 2011. Os bydd yr adolygiad yn cynnig unrhyw newidiadau sylweddol, bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio efo'r Cyngor Iechyd Cymuned i gytuno sut fyddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd.

Bydd mwy o fanylion ynglŷn â'r broses hon yn dilyn – cysylltwch â Barbara Lloyd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Corfforaethol ar 01745 534136 am fwy o wybodaeth.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies	**01745 534495**
Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

15 October 2010

Review of Clinical Haematology

A well attended briefing meeting for staff was held in St Asaph on 14th October 2010 to discuss the proposed review of Clinical haematology services across North Wales. Clinical haematology refers to the treatment of patients with blood disorders. The group included a range of staff including medical, nursing and laboratory staff from across North Wales, and a patient representative also attended. The purpose of the meeting was to explain the review process, identify the main stakeholders that will need to be engaged in the process and agree exactly what question the review will be answering.

During the course of the meeting there was plenty of debate and all present agreed that there was a need for change to ensure we continue to provide a modern service that is designed to deliver safe and effective clinical haematology services to the patients of North Wales.

A wide range of stakeholders were identified and these will be invited to send representatives to the stakeholder events that will be held as part of the review process.

In terms of identifying the question, the group agreed that the review will need to answer the question:

'What is the best possible way of delivering Clinical Haematology Services for the population of North Wales within available resources?'

The review process will start in November and will take in the region of four months to complete. It is expected the final recommendations will be presented to the Betsi Cadwaladr University Health Board in the spring 2011. Should any significant changes be proposed by the review the health board will work with the Community Health Council to agree how we engage and consult with the public.

Further details regarding this process will follow - please contact Barbara Lloyd, Assistant Director Corporate Affairs on 01745 534136 for further information.

ENDS

For further information please contact:

Mrs Dawn Davies	**01745 534495**
Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**